Senedd Cymru
**Ymweld a Dysgu**

# Creu Maniffesto: Adnoddau Ffug Etholiad (Uwchradd)

Canllaw i athrawon

## Cyflwyniad

Mae'r gwasanaeth Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc, Senedd Cymru, yn wasanaeth rhad ac am ddim i athrawon a gweithwyr ieuenctid ledled Cymru.

Mae llu o adnoddau ar gael i chi allu trafod Senedd Cymru a Democratiaeth gyda'ch dysgwyr.


## Adnoddau addysgu

Yn ogystal â fideos sydd yn egluro Hanes y Senedd, Pwerau'r Senedd, Aelodau o'r Senedd a Phleidleisio yn Etholiadau'r Senedd.

- Hanes y Senedd:
  **https://youtu.be/THELFJK9RsI**
- Pwerau'r Senedd:
  **https://youtu.be/aQMfwH42Xeg**
- Aelodau o'r Senedd:
  **https://youtu.be/qPSJcCpAaNY**
- Pleidleisio yn Etholiadau'r Senedd:
  **https://youtu.be/6GRjEqdl9bE**

**Sgania fi!**

Sgania'r cod QR i gweld y fideo llawn.



## Creu Maniffesto: Adnoddau Ffug Etholiad (Uwchradd)

Nod y pecyn adnoddau yma yw annog disgyblion i fwynhau dysgu am etholiadau Senedd Cymru tra'n datblygu amrywiaeth o sgiliau ar yr un pryd.

Mae'r adnoddau yn addas ar gyfer camau cynnydd 4 ac yn berthnasol i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru, gan roi cyfle i ddisgyblion feithrin sgiliau trafod a datrys problemau trwy gynnig syniadau sy'n berthnasol i'w hardal leol ac i Gymru gyfan.

Yn ogystal â'r angen i gydweithio i ddatrys problemau, mae defnyddio amrywiaeth o sgiliau iaith yn rhan ganolog o'r dasg. Bydd yn rhaid defnyddio sgiliau iaith lafar ac ysgrifenedig ar gyfer trafod, yn ogystal â llunio maniffesto, araith a phoster ymgyrch.

Gall hon fod yn dasg ar gyfer 2-3 gwers, gan ganolbwyntio ar lunio maniffestos byr ar gyfer y blaid, cyflwyno syniadau i'r dosbarth a chynnal pleidlais.

Gellid ymestyn y dasg i fod yn gyfres o wersi dros hanner tymor drwy:

- Dynnu ar sgiliau celf er mwyn dylunio logo, posteri a rhoséd,
- Defnyddio TG i greu cyflwyniad PowerPoint neu wefan ar gyfer eu plaid a/neu greu fideo o'u hareithiau.
- Cynyddu'r disgwyliadau iaith yng nghyd-destun ysgrifennu maniffestos a / neu araith e.e. pob un i ysgrifennu ei araith ei hun, gan ddefnyddio brawddegau llawn yn esbonio beth yw'r syniad a'r rheswm drosto.

## Cynnwys y pecyn:

- Cyflwyniad PowerPoint er mwyn esbonio'r dasg i'r dosbarth.
- Cerdyn cyfarwyddiadau.
- Cardiau pwnc: Addysg, Iechyd, Amgylchedd a'n Cymunedau. Mae rhain yn gardiau sy'n nodi pwnc y mae angen iddynt ei drafod cyn meddwl am ddatrysiad. Mae'r pynciau yn berthnasol i waith y Senedd.
- Taflen er mwyn cofnodi eu syniadau maniffesto ar gyfer pob pwnc.
- Papur pleidleisio.
- Templed roséd.
- Templed cyhoeddi'r enillydd.

## Adnoddau ychwanegol fydd eu hangen :

- 'Post Its' ar gyfer storm syniadau.
- Pinnau ffelt a phapur er mwyn creu posteri.
- Sisyrnau i dorri allan y roséd.
- Glud i'r roséd.

## Cyfarwyddiadau:

1. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, rhain fydd eich pleidiau ar gyfer yr etholiad.
2. Bydd angen i bob plaid ddewis cadeirydd er mwyn sicrhau bod y trafod yn deg a bod tasgau yn cael eu cwblhau mewn pryd.
3. Rhannwch y pecyn adnoddau gyda phob grŵp.
4. Dylai'r cadeirydd ddarllen drwy'r cyfarwyddiadau.
5. Fel grŵp dylid trafod pob cerdyn pwnc yn ei dro.
6. Gall pawb gynnig syniadau neu nodi ar 'post-it.' Os nad oes gan y grŵp syniadau gallent ddarllen drwy'r cwestiynau ar cefn y cerdyn i'w cynorthwyo.
7. Mae nifer y syniadau neu addewidion maniffesto maent yn ei gynnig a'r manylder yn dibynnu ar yr amser yr ydych yn ei neilltuo i'r sesiwn. Os yw'n gyfnod o awr neu lai gallwch holi am un syniad ar gyfer pob pwnc.
8. Dylai pob grŵp ddewis pa syniadau maent am eu cynnwys yn eu maniffesto.
9. Yna bydd angen sicrhau bod gan bob grŵp araith, bod pawb yn y grŵp yn cael cyfle i siarad h.y. un syniad pob un, efallai rhai llai hyderus yn cyflwyno'r blaid 'ni yw'r blaid .....' neu yn cloi'r araith gyda 'Pleidleisiwch drosom ni'.
10. Creu poster lliwgar er mwyn arddangos prif syniadau eu plaid, gall rhai liwio a thorri allan y roséd.

    Yn ddibynnol ar yr amser yr ydych yn ei roi i'r dasg gellid rhannu cyfrifoldebau yn y grŵp rhwng y tasgau canlynol: Llunio logo ar gyfer y blaid, ysgrifennu araith, creu cyflwyniad PowerPoint a/neu boster, creu fideo o'ch cyflwyniad.



11. Rhowch gyfle i bob grŵp gyflwyno o flaen y dosbarth. Er mwyn ychwanegu at y cyffro a'r profiad, gallwch wahodd dosbarthiadau o grwpiau blwyddyn eraill i wrando ar areithiau parti.

12. Esboniwch y bydd pob un yn cael cyfle i bleidleisio a'i bod yn bleidlais gyfrinachol. Does dim angen trafod gydag eraill na rhoi enw ar y papur pleidleisio dim ond X yn erbyn enw'r blaid.

13. Plygu'r papur pleidleisio yn ei hanner a'i rhoi yn y blwch pleidleisio. Cofiwch fod angen i bawb bleidleisio gan gynnwys athrawon a chynorthwywyr dosbarth!

14. Gallwch ddewis rai i helpu gyda'r cyfri gan wneud rhicbren (tally) wrth nodi'r pleidleisiau.

15. Defnyddiwch y sgript er mwy cyhoeddi enillydd yr etholiad.

## Gwaith Dilynol:

- Gallwch lunio graff o'r canlyniadau.
- Edrych ar ystadegau pleidleisio a llunio graffiau.
- Creu poster ynglŷn a phwysigrwydd pleidleisio.
- Ymchwilio i hawliau pleidleisio a'r swffragetiaid.
- Ysgrifennu blog am y ffug etholiad.
- Ysgrifennu at Aelodau o'r Senedd yn sôn am eich prif bolisïau.
- Dewis un syniad er mwyn deisebu'r Senedd.

